# SIARTER BWYD

## *Y Sir Fynwy a Garem*

*Mae Partneriaeth Bwyd Sir Fynwy yn gynllun ar y cyd rhwng pobl a sefydliadau o'r gymuned, y trydydd sector, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector sy'n ymroddedig i gymryd* ***camau cadarnhaol*** *tuag at* ***system fwyd gynaliadwy*** *o fewn y sir a thu hwnt.*

*Mae'r Siarter Fwyd hon yn nodi ein* ***gweledigaeth*** *a'r* ***blaenoriaethau a rannwn.*** *Os ydych chi yn rhannu ein gweledigaeth,* ***byddem wrth ein bodd pe byddech yn ymuno â ni.***

### Bwyd Iach i Bawb

- Bwyd maethlon, blasus a chyfeillgar i'r blaned ar gael i bawb, beth bynnag fo'u hincwm
- Pawb â'r wybodaeth a'r sgiliau i dyfu, paratoi, coginio a bwyta bwyd da
- Neb yn dioddef o afiechyd a achosir gan ddiet wael

### Mudiad Bwyd Da

- Preswylwyr Sir Fynwy yn becso am yr hyn maent yn ei fwyta a'i yfed, a sut y caiff ei gynhyrchu
- Cymunedau yn dod ynghyd yn rheolaidd drwy dyfu, paratoi a rhannu bwyd da
- Pobl leol yn teimlo cysylltiad gyda'r tir a'i gilydd drwy'r bwyd y maent yn ei brynu a'i ddefnyddio

### Economi  Bwyd Cynaliadwy

- Busnesau bwyd a diod cynaliadwy a moesegol yn ffynnu drwy'r flwyddyn, gyda chefnogaeth gan breswylwyr parhaol ac ymwelwyr tymhorol
- Bwyd a ffermio yn cael eu hystyried yn llwybrau gyrfa deniadol, gan gynnig gwaith teg a thâl teg
- Sir Fynwy gydag enw da ac yn uchel ei pharch am ansawdd a digonedd ei chynnyrch

### Bwyd ar gyfer y Blaned

- Ein tir yn cael ei reoli a'i ffermio mewn modd cynaliadwy a bioamrywiaeth yn ffynnu
- Pobl â gwybodaeth gywir i wneud dewisiadau bwyd cyfeillgar i'r blaned
- Gwastraff bwyd a phecynnau yn bethau sy'n perthyn i'r gorffennol

**Ydych chi'n rhannu ein gweledigaeth? Cofrestrwch am ddim i ymuno â Phartneriaeth Bwyd Sir Fynwy a derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf drwy e-bost.**